

Galw ar y Prif Weinidog i ymyrryd ac achub Duolingo Cymraeg.

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Mehefin 2024
Petitions Committee | 10 June 2024

Cyfeirnod: SR248622-3

Rhif y ddeiseb: P-06-1434

Teitl y ddeiseb: Galw ar y Prif Weinidog i ymyrryd ac achub Duolingo Cymraeg.

Geiriad y ddeiseb: Ni fydd Duolingo yn diweddarau na datblygu ymhellach ei gwrs Cymraeg o ddiwedd mis Hydref 2023.

Mae'r ddeiseb hon yn galw ar y Prif Weinidog i ymyrryd yn y mater yn bersonol gyda Luis von Ahn, Prif Swyddog Gweithredol Duolingo, gyda'r nod o achub y cwrs Cymraeg.

1. Y cefndir

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw gweld nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn cynyddu i 1 miliwn erbyn 2050, a fyddai bron yn dyblu nifer presennol y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2021 fod 538,300 o bobl 3 mlwydd oed neu hŷn yng Nghymru wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hwn yn ostyngiad o tua 23,700 o bobl ers Cyfrifiad 2011.



Mae ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith yn themâu allweddol yn strategaeth y Gymraeg sef [Cymraeg 2050](#). O ran y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg – a ddarperir yn bennaf drwy'r [Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol](#) – mae'n nodi fel a ganlyn:

Mae gan y sector Cymraeg i Oedolion gyfraniad pwysig i'w wneud i'n nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd yn gwneud hyn drwy alluogi oedolion o bob gallu ac oedran i wella'u sgiliau, ailddechrau astudio'r Gymraeg neu ddysgu o'r newydd er mwyn rhoi'r hyder iddynt i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn gymdeithasol neu o fewn y teulu.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn uniongyrchol. Mae'r Ganolfan (sy'n cynnal ei rhaglenni o dan y faner – Dysgu Cymraeg) yn dosbarthu arian i [11 darparwr cyrsiau ledled Cymru](#).

Fodd bynnag, mae yna hefyd ffyrdd eraill o ddysgu Cymraeg sy'n ategu darpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Datblygodd Say Something in Welsh (SSiW) – sy'n gwmni Cymreig – lwyfan dysgu ar-lein ac mae Duolingo – sy'n llwyfan dysgu byd-eang ar sail apiau – yn darparu ffyrdd eraill o ddysgu Cymraeg. Mae [SSiW](#) a [Duolingo](#) fel ei gilydd, yn gweithio hefyd mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i alluogi mynediad a chysondeb ar draws y ddarpariaeth dysgu Cymraeg.

2. Duolingo

[Mae Duolingo yn gwmni technoleg addysgol o'r Unol Daleithiau](#) a gafodd ei sefydlu yn 2011, a'i lansio ym mis Mehefin 2012. Mae'n cynnig cyrsiau ar-lein trwy ei apiau mewn mwy na 40 o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg. Sefydlwyd y cwmni gan yr Athro Luis von Ahn, sef y Prif Swyddog Gweithredol presennol.

Yn ôl adroddiadau, gwnaeth Duolingo [gynhyrchu refeniw o \\$531 miliwn](#) (Doler yr UD), a gwneud elw o \$16.1 miliwn, yn 2023. Amcangyfrifir bod ganddo dros 500 miliwn o ddefnyddwyr cofrestredig, a thua 37 miliwn o ddefnyddwyr dyddiol ledled y byd. Gall dysgwyr ddefnyddio Duolingo am ddim, er bod tanysgrifiad premiwm o'r enw Super Duolingo yn costio £5 y mis, sef cynnwys heb hysbysebion, sy'n cynnig cymwysiadau a gwasanaethau ychwanegol.

2.1. Datblygiad Duolingo yn y Gymraeg

Yn 2016, cychwynnodd criw o wirfoddolwyr – dan arweiniad y tiwtor Cymraeg, Richard Morse – ar y gwaith o ddatblygu a chynnal y cwrs Cymraeg ar Duolingo. Parhaodd y trefniant hwn yn ei le tan 2021, pan drosglwyddwyd [y cyfrifoldeb i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol](#). Yn ôl adroddiad terfynol Llywodraeth Cymru ar y [Cynllun gweithredu technoleg iaith Gymraeg](#), bu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn “gofalu am gynnwys cyrsiau Cymraeg Duolingo” rhwng Tachwedd 2021 a Thachwedd 2023. Mae'n nodi fel a ganlyn:

Yn y cyfnod hwnnw fe sicrhodd y Ganolfan fod y cwrs Cymraeg Duolingo wedi'i alinio â chysiau Sylfaen a Mynediad y Ganolfan fel bod dysgwyr y Ganolfan yn gallu defnyddio Duolingo fel adnodd i adolygu ac ymarfer eu Cymraeg.

Roedd gan y Ganolfan berthynas â Duolingo eisoes ar ôl sefydlu [partneriaeth newydd yn 2017](#) i rannu ei adnoddau dysgu gyda'r Ap iaith. Byddai hyn, yn ôl Ganolfan, yn sicrhau “bod fersiwn Gymraeg ap rhad-ac-am-ddim Duolingo yn defnyddio'r un patrymau iaith a geirfa sy'n cael eu dysgu ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion”.

2.2. Duolingo yn oedi datblygiad pellach

Ym mis [Hydref 2023](#), Cyhoeddodd Duolingo y byddai'n oedi datblygiad y cwrs Cymraeg ar ei ap, fel rhan o adolygiad ehangach o'i gyrsiau. Yn ôl yr [erthygl hon gan BBC Wales](#), byddai Duolingo yn sianelu ei adnoddau i gyrsiau a oedd yn fwy poblogaidd ymhlith defnyddwyr. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod Duolingo wedi datgan yn [2020 bod y Gymraeg yn cael ei hystyried fel yr iaith oedd yn tyfu gyflymaf yn y DU](#), gyda chynnydd o 44% mewn dysgwyr newydd o gymharu â ffigurau 2019. Fe'i hystyriwyd hefyd y nawfed iaith fwyaf poblogaidd i'w dysgu yn y DU o'r holl ieithoedd sydd ar gael ar yr ap.

Wrth ymateb i'r cyhoeddiad ar [Nation Cymru](#), dywedodd Richard Morse, a fu'n arwain y grŵp o wirfoddolwyr a ddatblygodd y cwrs Cymraeg ar yr Ap:

Duolingo is 'sunsetting the development of the Welsh course' (and many others). But they have promised to keep the course available.

It will no longer be possible to edit the course after this month so please note anything that possibly needs to be changed, ideally with a screenshot.

3. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Yn dilyn cyhoeddiad Duolingo, gwnaeth y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ar y pryd Jeremy Miles AS, ysgrifennu at Luis von Ahn, Prif Swyddog Gweithredol Duolingo i fynegi pryder am y penderfyniad. Yn ei lythyr, dyddiedig 25 Hydref 2023, dywedodd y Gweinidog:

Whilst I appreciate that the Welsh from English course will remain on the Duolingo platform, I fear the decision not to update its content will be detrimental in the longer term as the course could start to lose its relevance for learners. I am requesting therefore that Duolingo reconsider its decision to pause development of the Welsh course.

Nododd y Gweinidog mewn ymateb i'r Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg bod Luis von Ahn wedi ymateb i bryderon y Gweinidog ar 29 Hydref gan nodi fel a ganlyn:

... [nid] oedd y penderfyniad i oedi datblygiad cynnwys newydd ar y cwrs Cymraeg wedi bod yn un hawdd.

Serch hynny, nododd y Gweinidog fod Duolingo yn awyddus i sicrhau bod ganddi “i rôl barhaus i'w chwarae wrth helpu ieithoedd fel y Gymraeg i ffynnu”, a gofynnodd i aelodau o'i dîm i “estyn allan” i'w swyddfa “i weld sut y gallai Duolingo barhau i gefnogi Cymraeg 2050”.

Er bod y bartneriaeth yn un rhwng y Ganolfan Genedlaethol a Duolingo, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Phennaeth Materion Llywodraeth Duolingo ym mis Tachwedd 2023. Nododd y Gweinidog fod Duolingo wedi tynnu sylw at y canlynol:

heriau sylweddol y mae'n eu hwynebu wrth ddatblygu cynnwys newydd ac, er ei fod yn oedi datblygiad cynnwys newydd, pwysleisiodd **nad yw'r drws ar gau ar ddatblygiadau yn y dyfodol**. Roedd Duolingo hefyd yn awyddus i bwysleisio bod y profiad o weithio gyda'r Ganolfan fel partner wedi bod yn un cadarnhaol ac adeiladol, a chanmolodd yr ymrwymiad y Ganolfan i ddatblygu cwrs Cymraeg Duolingo ac i gynyddu nifer y defnyddwyr.

Roedd Llywodraeth Cymru, yn y tymor byr, i barhau â'i thrafodaethau â Duolingo i ddeall yr heriau, a lle y gellid darparu cymorth ymarferol. At hynny, roedd yn edrych i'r hirdymor, i weld pa rôl y gallai Duolingo ei chwarae fel “adnodd i gefnogi addysgu a dysgu wrth i bobl symud ymlaen ar hyd y continwwm”.

Cymraeg.

Waeth beth fo'r problemau gyda diweddaru'r cwrs, nododd Duolingo ei fod wedi ymrwymo "i sicrhau y bydd y cwrs Cymraeg bob amser ar gael yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr". Bydd deialog rhwng [Duolingo, y Ganolfan Genedlaethol a swyddogion Llywodraeth Cymru](#) hefyd yn parhau i "ganiatáu inni adolygu os oes angen diweddariadau i'r cwrs Cymraeg yn y dyfodol".

4. Camau gan Senedd Cymru

Yn dilyn newyddion am benderfyniad Duolingo i oedi datblygiadau pellach a diweddariadau i'r cwrs Cymraeg ar ei ap, gwnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg [ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ar y pryd, Jeremy Miles AS](#). Mynegodd y Cadeirydd bryder am y penderfyniad a'i effaith ar ddefnyddwyr y platfform, a gofynnodd am ymateb i gyfres o gwestiynau.

Fe wnaeth y Gweinidog [ymateb ar 30 Tachwedd 2023](#) gan gadarnhau y bydd "y cwrs Cymraeg bob amser ar gael yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr" ar lwyfan Duolingo. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod cyfarfodydd gyda'r cwmni ers y cyhoeddiad wedi arwain at gytuno ar "nifer o gamau i sicrhau bod ymrwymiad y cwmni i'r Gymraeg yn parhau".

Yn ystod [y Cyfarfod Llawn ar 25 Hydref 2023](#), [gofynnodd Samuel Kurtz AS](#) i'r Gweinidog ar y pryd am benderfyniad Duolingo:

Dros y dyddiau diwethaf, cyhoeddwyd bod yr ap iaith poblogaidd Duolingo yn rhoi'r gorau i sawl cwrs iaith, gan gynnwys y Gymraeg. Er na fydd y cwrs yn cael ei ddileu, mae'n golygu na fydd y cynnwys yn cael ei ddiweddaru, ac na fydd modd ychwanegu ato ... Mae'ch adran wedi bod mewn cysylltiad â'r cwmni. Gaf i ofyn pa gynigion y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud, ac oes unrhyw ymateb wedi dod i law gan reolwyr Duolingo?

Ymatebodd y Gweinidog i'r cwestiwn fel a ganlyn:

Mae Duolingo yn un o'r ffyrdd y mae pobl yn ei defnyddio i ddod at y Gymraeg—un o'r amryw o ffyrdd, wrth gwrs—ac mae'n parhau i fod yn llwybr sydd yn atyniadol, am resymau y byddwn ni'n eu deall. Rwyf wedi ysgrifennu at Duolingo, yn gofyn iddyn nhw ailystyried y penderfyniad maen nhw wedi ei gymryd. Ond fel y gwnaeth yr Aelod ei ddweud, dyw'r Gymraeg ddim yn mynd i ffwrdd o'r platfform—bydd hi'n parhau i fod yna. Fel efallai y bydd e'n ei gofio, mae'r Gymraeg yn un o'r enghreifftiau prin—efallai yr unig enghraifft—lle nad gwirfoddolwyr sy'n creu'r cynnwys

y tu hwnt i'r ap. **Ers rhyw gyfnod nawr, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu cynnwys yr ap yn y Gymraeg, yn adeiladu ar y gwaith gloyw a phwysig iawn y gwnaeth gwirfoddolwyr ei wneud cyn hynny.** Felly, yn sgil hynny, fy nealltwriaeth i yw bod mwy o ddatblygiad cyflym wedi digwydd i'r cynnwys sydd ar yr ap yn y Gymraeg efallai nag mewn rhai ieithoedd eraill. Felly mae'n bosib y bydd yr effaith yn llai andwyol ar y Gymraeg nag ar rai ieithoedd eraill. **Ond byddwn i yn hoffi gweld Duolingo yn newid eu penderfyniad,** nid o leiaf am y ffaith bod gennym ni strwythur sydd wedi ei hariannu yma yng Nghymru sydd yn barod i allu parhau i ddatblygu cynnwys ar yr ap.

Ar 6 Rhagfyr 2023, cyflwynodd Andrew RT Davies AS gwestiwn ysgrifenedig i'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, ar y pryd, am unrhyw drafodaethau pellach a gynlluniwyd gyda Duolingo;

A oes gan y Gweinidog gynlluniau i gynnal trafodaethau pellach gyda Duolingo ynghylch cynnal cefnogaeth i'r cwrs Duolingo Cymraeg, yn dilyn y cynnydd yn nifer y defnyddwyr sy'n ymgymryd â'r cwrs?

Ymatebodd y Gweinidog ar 15 Rhagfyr 2022, gan nodi fel a ganlyn:

A meeting was held with Duolingo on 13 November 2023, where the company confirmed that the Welsh course will continue to be available on the Duolingo platform and will remain free for all learners to use.

We have also agreed to meet regularly to review Duolingo's contribution to the Cymraeg 2050 Strategy.

Ar 30 Ionawr 2024, yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg, gwnaeth y Gweinidog fyfyrion ymhellach ar benderfyniad Duolingo i beidio â pharhau i ddiweddarau'r cwrs Cymraeg, gan nodi fel a ganlyn:

... ar lawr gwlad, fyddwn i fy hunain yn synnu pe bai 99 y cant o bobl sy'n defnyddio'r ap yn sylwi bod gwahaniaeth wedi bod. Felly, mae eisiau cymryd rhywfaint o gysur o hynny. Dyw e ddim yn grêt, ond dyw'r Gymraeg ddim yn cael ei—. Mae'n cael ei thrin yn wahanol i'r ieithoedd mwyaf, ond dyma ran o gynllun ehangach gan Duolingo. O safbwynt y Gymraeg, un o'r pethau calonogol, roeddwn i'n meddwl, oedd ymateb Duolingo i'r ymgyrch ar ran pobl sy'n medru'r Gymraeg. Doedden nhw ddim wedi gweld unrhyw beth o'r fath o'r blaen, felly, mae hwnna'n

Cymraeg.

dangos rhywbeth i ni, rwy'n credu, am yr angerdd a'r ymdeimlad sydd o blaid dysgu'r Cymraeg.

Ar 13 Mawrth 2024, cyflwynodd Andrew RT Davies AS gwestiwn ysgrifenedig arall i'r Gweinidog ar y pryd am y camau a gymerwyd i "... sicrhau bod unrhyw wallau ar Duolingo yn cael eu cywiro a'u rhyddhau i'r 700,000 o ddefnyddwyr sy'n ei ddefnyddio i ddysgu Cymraeg?"

Ymatebodd y Gweinidog fal a ganlyn:

*Concerns about errors in course content have recently been submitted by individuals directly to Duolingo. I understand that Duolingo has considered all of the matters raised but has **concluded that only a few of the requests for revisions were due to valid errors.** They are in the process of making those revisions.*

*Duolingo has indicated that it is **willing to correct errors in the Welsh course.** Any concerns should be raised, either **directly with Duolingo** or through the National Centre for Learning Welsh, for it to consider.*

Yn ystod sesiwn dystiolaeth ddiweddar y Pwyllgor Diwylliant, gofynnodd Tom Giffard AS i Brif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am benderfyniad Duolingo:

Chwe mis yn ôl neu rhywbeth, roedd Duolingo yn dweud nad oedden nhw yn mynd i gario ymlaen i 'updat-io' yr ap. Pa effaith mae hwnna wedi ei gael, yr ydych chi wedi gweld hyd yn hyn, ar eich ymdrechion chi i gael pobl i ddysgu Cymraeg?

Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr fel a ganlyn:

Y newyddion da ydy bod y cwrs yn dal i fodoli. Felly, mae'r cwrs Duolingo Cymraeg yn dal i fod yna, a llawer iawn o bobl yn troi ato fo. Beth ddaeth i ben oedd yr elfen diweddar ar y cwrs. Felly, i fod yn hollol onest, **ddim yn rhagweld bydd yna effaith enfawr ar hynny.** Mae'r adnodd yn dal i fod ar gael. Mae pobl yn troi ato fo yn union yn yr un modd. Dŷn ni wedi alinio rhywfaint o'r cwrs Duolingo gyda'n cyrsiau ni, felly mae'n eithaf hawdd i bobl fanteisio ar y ddau. Ond, eto, buaswn i'n annog pobl i **ddefnyddio Duolingo i ategu at yr hyn dŷn ni'n ei wneud**, i ymarfer ac i'w helpu nhw i ddefnyddio'r Gymraeg. Felly, dim effaith enfawr, i fod yn onest.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.